# Canllawiau Atgyfeirio Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS)

# Wedi'i ddiweddaru mis Medi 2024

## Tîm CASS



**Michelle Meredith -Pennaeth Cynorthwyol Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod – CASS**

Ymunodd Michelle ag Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod a thîm CASS ym mis Ionawr 2013. Cyn hynny, Michelle oedd Pennaeth Canolfan Adnoddau Arbenigol Caerffili i ddisgyblion Awtistig 11-16 oed lle bu'n gweithio am 9 mlynedd. Roedd hi'n rhan annatod o ddatblygu'r Ganolfan Adnoddau i fod yn lleoliad hynod arbenigol a llwyddiannus i ddisgyblion â diagnosis o Awtistiaeth.

Hyfforddodd Michelle fel athrawes ysgol gynradd ac arbenigodd mewn gweithio gyda phlant a phobl ifanc Awtistig. Mae hi wedi gweithio mewn amrywiaeth o leoliadau addysgol gyda phobl ifanc 3-19 oed.

Michelle yw'r prif bwynt cyswllt ar gyfer gwasanaeth CASS.



**Melissa Taylor – Cymorth yn y cartref/cymorth yn yr ysgol**

Mae Melissa wedi gweithio i CASS ers mis Tachwedd 2020 fel gweithiwr cymorth yn y cartref a chymorth yn yr ysgol. Cyn ymuno â CASS, bu Melissa yn gweithio yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod am ddwy flynedd fel cynorthwyydd addysgu. Mae gan Melissa nifer o flynyddoedd o brofiad yn gweithio mewn ysgolion prif ffrwd yn cynorthwyo plant Awtistig ac mae wedi arwain prosiect ledled ysgolion cynradd ac uwchradd yn gweithio gyda phlant sy'n agored i niwed. Mae gan Melissa brofiad blaenorol o weithio gyda theuluoedd a'u cynorthwyo nhw gan ei bod, yn flaenorol, yn trefnu cylch chwarae misol i blant ag amrywiaeth o anghenion dysgu ychwanegol.



**Cerys Jenkins – Cymorth yn yr ysgol**

Mae Cerys wedi gweithio gyda CASS fel cynorthwyydd addysgu allgymorth ers i'r gwasanaeth ddechrau. Mae Cerys yn brofiadol iawn mewn gweithio gyda phobl ifanc ag Awtistiaeth o bob oed.



## Alison Evans – Cymorth yn y cartref

Mae Alison wedi gweithio i CASS fel gweithiwr cymorth yn y cartref/cymorth yn yr ysgol am y 5 mlynedd diwethaf. Yn flaenorol, bu Alison yn gweithio gyda gwasanaeth allgymorth i blant ag anghenion ychwanegol, gan gynnwys plant ag Awtistiaeth.



## Jo Tucker – Weinyddwr

Ymunodd Jo â'r tîm yn 2020 ac mae hi wedi bod yn ychwanegiad amhrisiadwy. Mae Jo yn weinyddwr profiadol a hi yw'r pwynt cyswllt cyntaf i unrhyw un sy'n ceisio cysylltu â'r tîm.

## Rydych chi'n gallu cysylltu â'r holl staff yn y cyfeiriad canlynol:

Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod
Caerphilly Road
Ystrad Mynach
Hengoed
CF82 7XR
01443 866000
cass@sch.caerphilly.gov.uk

# Crynodeb o'r hysbysiad preifatrwydd: Sut y byddwn ni'n defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS) yn prosesu atgyfeiriadau am gymorth/cyngor naill ai drwy hyfforddiant, cymorth yn y cartref, neu gymorth yn yr ysgol. Byddwn ni'n coladu'r wybodaeth sy'n berthnasol i'ch cais, eich hunaniaeth a'ch manylion cyswllt at ddibenion darparu ymatebion a gohebiaeth i chi. Bydd cyfranogiad gan CASS yn cynnwys coladu/rhannu gwybodaeth gyda meysydd gwasanaeth eraill o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a sefydliadau eraill megis ysgolion/sefydliadau addysgol perthnasol, byrddau iechyd, Gyrfa Cymru, Llywodraeth Cymru, Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, SNAP Cymru ac awdurdodau lleol eraill. Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw am 31 mlynedd o ddyddiad geni eich plentyn.

Mae gennych chi nifer o hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth, gan gynnwys yr hawl i gael gafael ar wybodaeth sydd gennym ni amdanoch chi a'r hawl i gwyno os ydych chi'n anhapus â'r ffordd rydyn ni wedi ymdrin â'ch cais neu eich gwybodaeth chi.

I gael rhagor o wybodaeth am sut rydyn ni'n prosesu'ch gwybodaeth a'ch hawliau chi, cliciwch ar y ddolen ganlynol:

https://trinityfieldsschoolandresourcecentre.co.uk/media/d3zgrw4j/privacy-notice-cass-2022-final.pdf

## CASS – Amdanom ni

Mae Gwasanaeth Sbectrwm Awtistig Caerffili (CASS) yn rhan o Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod. Mae'r tîm hwn wedi'i ddatblygu i gynorthwyo plant a phobl ifanc Awtistig a'u teuluoedd. Mae'r gwasanaeth yn darparu cymorth i staff a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc Awtistig hyd at 18 oed.

Mae cymorth yn cael ei gyfeirio at y canlynol:

- Rhieni a/neu ofalwyr
- Plant a phobl ifanc sydd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth
- Aelodau teulu
- Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Athrawon
- Staff cymorth dysgu a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc.

Mae'r gwasanaeth wedi'i deilwra i hwyluso dull aml-asiantaeth o fynd i'r afael ag anghenion unigol y plant a phobl ifanc. Mae CASS yn cysylltu ag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill gan gynnwys:

- Seicolegwyr Addysg ac Athrawon Ymgynghorol
- Gwasanaethau Cymdeithasol
- Tîm Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHs)
- Tîm Gofal Iechyd Meddwl Sylfaenol
- Pediatregwyr a phob gwasanaeth Niwroddatblygiadol arall
- Therapi Iaith a Lleferydd (SALT)
- Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS)
- Asiantaethau gwirfoddol
- Therapyddion Galwedigaethol
- Unrhyw asiantaethau eraill lle bo'n briodol

## Ymgynghoriad rhithwir

Mae CASS bellach yn cynnig opsiwn ymgynghoriad rhithwir i ysgolion. Gall ysgolion ofyn am ymgynghoriad yn y lle cyntaf i weld os mae unrhyw gyngor cyffredinol, cyfeirio neu adnoddau cymorth yn gallu cael eu darparu. Byddwn ni, hefyd, yn gallu eich helpu chi i benderfynu a yw atgyfeiriad CASS llawn yn briodol ar yr adeg hon. Lle rydyn ni wedi cael atgyfeiriad gan weithiwr iechyd/gwasanaeth cymdeithasol proffesiynol a'i fod wedi gofyn yn benodol am gymorth yn yr ysgol, byddwn ni'n cysylltu â'r ysgol wedi'i henwi i gynnig ymgynghoriad yn y lle cyntaf; yn seiliedig ar yr ysgol ymgynghori, a bydd CASS yn penderfynu a oes angen ychwanegu'r person ifanc at y rhestr aros am gymorth yn yr ysgol ar hyn o bryd.
Os nad yw person ifanc yn hysbys i'r gwasanaeth, dylai testun yr ymgynghoriad aros yn ddienw drwy gydol y cyfarfod.
Os bydd atgyfeiriad llawn yn cael ei gyflwyno wedyn, yn seiliedig ar ganlyniad yr ymgynghoriad, dylai'r ysgol gyfeirio at y dyddiad ymgynghori yn y ffurflen atgyfeirio (mae lle ar ffurflen 24/25 wedi'i diweddaru)

Mae'n bosibl gwneud cais am ymgynghoriadau drwy fewnflwch CASS lle byddwn ni'n ceisio cynnig dyddiad ymgynghori o fewn 4-6 wythnos i'r cais ddod i law (ac eithrio gwyliau ysgol).

**Ceisiadau ymgynghori -** Mae ceisiadau am ymgynghori yn gallu cael eu gwneud drwy e-bost i fewnflwch CASS cass@sch.caerphilly.gov.uk.

## Amrywiaeth o gymorth CASS

Mae pobl ifanc 2-18 oed a'u teuluoedd yn gallu cael eu hatgyfeirio at CASS am y cymorth a'r gwasanaethau canlynol:

**Cymorth CASS**
Mae plant a phobl ifanc yn gallu cael eu hatgyfeirio at CASS am y rhesymau canlynol:
- Arddull dysgu ategol
- Cynorthwyo anghenion cyfathrebu
- Cyngor ynghylch deall a helpu gydag ymddygiad sy'n peri pryder
- Cyngor ynghylch deall a chymorth gyda gorbryder (ysgafn/cymedrol)
- Cyngor ynghylch datblygu sgiliau cymdeithasol
- Cyngor cyffredinol ar arferion mynd i'r toiled a chysgu (pan fo'r problemau'n gysylltiedig yn uniongyrchol â diagnosis y plentyn/person ifanc o Awtistiaeth)
- Cymorth pontio (gweler yr adran am bontio i weld a yw'r plentyn/person ifanc yn bodloni'r meini prawf)
- Datblygu arferion priodol a gweithredu adnoddau ategol (fel datblygu strwythur gweledol)
- Cyngor cyffredinol ynghylch cynorthwyo prosesu synhwyraidd

**Nid yw CASS yn darparu cymorth ar gyfer y canlynol:**
- **Ymyrraeth frys naill ai ar gyfer y person ifanc neu'r teulu**
- **Atgyfeiriadau ar gyfer pobl ifanc sy'n achosi pryderon sylweddol ynghylch meddyliau hunanladdol a/neu hunan-niweidio neu iselder**
- **Gofal seibiant**
- **Penderfyniadau ynghylch lleoliad ysgol a/neu ddyrannu oriau cymorth ychwanegol**

**Cymorth yn yr ysgol** – Mae'n rhaid i'r bobl ifanc gael diagnosis o Awtistiaeth i fod yn gymwys am gymorth yn yr ysgol. Mae cymorth ar gael gan CASS i rymuso ysgolion i ddiwallu anghenion dysgwyr Awtistig. Gall y cymorth hwn gynnwys modelu arfer da, cyngor ynghylch deall anghenion ac arddulliau dysgu, paratoi neu fenthyca adnoddau a hyfforddiant staff.

**Cymorth yn y cartref** – Mae'n rhaid i'r bobl ifanc gael diagnosis o Awtistiaeth i fod yn gymwys am gymorth yn y cartref. **Mae disgwyl y bydd y teulu'n cymryd rhan mewn rhyw fath o hyfforddiant gyda thîm CASS (neu gyfwerth) cyn bydd cymorth yn y cartref uniongyrchol yn cael ei ystyried**. Mae amrywiaeth o opsiynau hyfforddi ar gael i fodloni'r rhan fwyaf o amgylchiadau teuluol; ar yr achlysuron prin mae'r sefyllfa yn y cartref yn gymhleth ac nid yw ymgysylltu ag unrhyw fath o hyfforddiant yn bosibl, bydd opsiynau cymorth eraill yn cael eu hystyried fesul achos. Gall cymorth gynnwys cyngor, cyfeirio, rhannu adnoddau, modelu arfer neu atgyfeirio at wasanaethau priodol eraill. **Nid yw CASS yn cynnig unrhyw fath o ofal seibiant.**

## Sut olwg fydd ar gymorth CASS?

**Gall cymorth CASS gynnwys rhai o'r canlynol, ond mae'n cael ei bennu'n bennaf ar sail anghenion y plentyn unigol, yr ysgol neu'r teulu.**
- Sgyrsiau wyneb yn wyneb neu rithwir/datrys problemau ar sail unigol ac amser cyfyngedig
- Arsylwadau o'r plentyn/person ifanc mewn lleoliadau amrywiol
- Cyngor i rieni a/neu weithwyr proffesiynol

- Modelu strategaethau neu ddulliau gweithredu a rhyngweithio/ymgysylltu cadarnhaol
- Cymorth i ddatblygu adnoddau ar gyfer y plentyn/person ifanc/staff/amgylchedd y cartref a'r ysgol
- Cymorth dros y ffôn a drwy e-bost i staff a theuluoedd
- Cyswllt ag amrywiaeth o weithwyr proffesiynol
- Hyfforddiant HMS i staff yr ysgol ar gais
- Cyfeirio neu fenthyg llenyddiaeth berthnasol neu adnoddau eraill
- Mynychu cyfarfodydd cynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion a chyfarfodydd aml-asiantaeth lle bo'n briodol ar gyfer achosion agored yn unig

## Pontio

Ni all CASS drefnu pontio pwrpasol ar gyfer pob plentyn sy'n trosglwyddo o un amgylchedd addysgol i'r llall ond bydd yn darparu'r cymorth canlynol i ysgolion a phlant a phobl ifanc.

- Cyngor pontio i staff yr ysgol os oes angen/gofyn amdano.
- Mynediad at adnodd 'Transition Google Classroom' CASS i ddisgyblion sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Os yw'r ysgol yn penderfynu y dylai CASS fod yn rhan o'r cynllunio pontio ar gyfer unigolyn, yna dylai atgyfeiriad gael ei wneud i CASS gan ddilyn y llinell amser isod i sicrhau cyfranogiad.

**Plant sy'n pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

- Atgyfeiriadau at CASS ddim hwyrach na hanner tymor mis Hydref ym Mlwyddyn 6.

**Plant sy'n pontio yn y blynyddoedd cynnar, coleg neu unrhyw leoliad arall.**

- Atgyfeiriad wedi'i wneud cyn gynted â phosibl neu unwaith mae penderfyniad ar leoliad yn cael ei wneud.

**Er bod CASS yn ymdrechu i gynorthwyo pob person ifanc sy'n cael ei atgyfeirio atom ni, ni allwn ni ymrwymo i gynorthwyo gyda chynllunio pontio pan fydd yr atgyfeiriad wedi dod i law yn hwyr yn y broses. Fodd bynnag, mae cyngor cyffredinol bob amser ar gael drwy geisiadau am ymgynghoriad rhithwir.**

## Hyfforddiant i rieni/ofalwyr

Mae tîm CASS wedi dychwelyd i raglen hyfforddi wyneb yn wyneb gyda rhai opsiynau rhithwir. Bydd rhai cyrsiau'n parhau i gael eu rhedeg yn rhithwir yn seiliedig ar anghenion rhai teuluoedd, argaeledd lleoliadau a chapasiti.

Mae teuluoedd yn gallu cael eu hatgyfeirio at CASS ar gyfer y cyrsiau hyfforddi canlynol:

**Rhaglen 'Early Bird' Cymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth (NAS) –** Ar gyfer teuluoedd â phlentyn 0-4 oed sydd wedi cael diagnosis o Awtistiaeth. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys 8 sesiwn gweithdy wyneb yn wyneb a 2 sesiwn datrys problemau 1:1 gyda'r tîm.

**Rhaglen 'Early Bird Plus' NAS – 10 wythnos o hyfforddiant i deuluoedd â phlentyn sydd wedi cael diagnosis o ASD rhwng 4-8 oed. Os yw'r plentyn yn yr ysgol, gall aelod o staff yr ysgol hefyd fynychu'r hyfforddiant gyda rhieni. Mae'r rhaglen hon yn cynnwys 8 sesiwn gweithdy wyneb yn wyneb a 2 sesiwn datrys problemau 1:1 gyda'r tîm.**

**Hyfforddiant 'Cygnet' Barnardo's 4ydd argraffiad –** Rhaglen 6 wythnos i deuluoedd plant ag Awtistiaeth 5-18 oed. Nod y cwrs yw cynyddu dealltwriaeth rhieni o Awtistiaeth ac arwain rhieni drwy strategaethau ymarferol y gallan nhw eu defnyddio gyda'u plentyn. Bydd y rhaglen hon yn cael ei chyflwyno wyneb yn wyneb ac mae hefyd ar gael mewn fformat hunan-ddysgu rhithwir (Cynet yn y cartref).

**Rhaglen 'Teen Life' NAS –** Mae Teen Life yn rhaglen chwe sesiwn NAS ar gyfer rhieni/gofalwyr pobl ifanc Awtistig rhwng 10 ac 16 oed. Nod rhaglen Teen Life yw dod â rhieni at ei gilydd i rannu gwybodaeth, profiadau a syniadau mewn ffordd strwythuredig.

**'Understanding Me' –** Mae'r gweithdy hwn wedi'i ddatblygu gan dîm CASS i helpu pobl ifanc i ddeall eu diagnosis o Awtistiaeth ac mae'n addas ar gyfer pobl ifanc 11-17 oed. Mae'n rhaid i'r person ifanc fod yn ymwybodol o'i ddiagnosis ac eisiau mynychu'r sesiynau hyn. Fel arfer, bydd y cwrs yn cael ei gyflwyno fel sesiwn grŵp mewn ysgolion uwchradd ledled yr Awdurdod Lleol. Mae ffurflen atgyfeirio 'Understanding Me' ar wahân ar gael ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol ysgolion uwchradd sydd **ond** eisiau atgyfeirio grŵp o fyfyrwyr i gael mynediad at y cwrs hwn yn eu hysgol. **Dim ond yn briodol ar gyfer myfyrwyr sydd â diagnosis o Awtistiaeth wedi'i gadarnhau.** Am ragor o fanylion, cysylltwch â thîm CASS.

## Hyfforddiant ar gyfer ysgolion a gweithwyr proffesiynol eraill

Ar hyn o bryd, gall CASS gynnig y pecynnau hyfforddi canlynol fel rhan o hyfforddiant ysgol/lleoliad cyfan neu ar gyfer grwpiau llai o weithwyr proffesiynol. Mae hyfforddiant ar gael nid yn unig i ysgolion, ond i unrhyw leoliad/gweithwyr proffesiynol sy'n dymuno datblygu eu gwybodaeth a'u sgiliau. Mae'r hyfforddiant yn gallu cael ei ddarparu wyneb yn wyneb neu'n rhithwir yn ôl y gofyn.

**Yn ogystal â'r hyfforddiant isod, gallwn ni hefyd ddyfeisio hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu anghenion eich lleoliad neu staff unigol.** Mae rhai o'r pecynnau hyfforddi sydd ar gael yn cynnwys:

- Cyflwyniad i Awtistiaeth
- Strategaethau ystafell ddosbarth a datblygu strwythur gweledol
- Deall a chynorthwyo gydag ymddygiadau heriol
- Deall prosesu synhwyraidd
- Awtistiaeth a merched/masgio

Mae'r cyrsiau hyn yn gallu cael eu cyfuno mewn unrhyw ffordd.

## Costau hyfforddiant i weithwyr proffesiynol

Hyfforddiant diwrnod cyfan (dros 15 o staff) – **£150.00**
Hyfforddiant diwrnod cyfan (llai na 15 o staff) – **£120.00**

Hyfforddiant hanner diwrnod (dros 15 o staff) – **£100.00**
Hyfforddiant hanner diwrnod (llai na 15 o staff) – **£80.00**

Sesiwn gyda'r hwyr am 1 awr – **£75.00**
Sesiwn gyda'r hwyr am 2 awr – **£120.00**

## Am fanylion pellach neu i drefnu hyfforddiant, cysylltwch â:

Tîm CASS team yn cass@sch.caerphilly.gov.uk

## Atgyfeirio CASS – Gyda phwy rydyn ni'n gweithio?

**Preswylio**
I gael cymorth yn y cartref gan CASS, rhaid i'r plentyn neu berson ifanc fod yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd CASS yn darparu cyngor i ysgolion lle mae'r plentyn neu berson ifanc yn cael ei addysgu mewn ysgol ym Mwrdeistref Sirol Caerffili ond mae'r plentyn neu berson ifanc yn byw y tu allan i'r Awdurdod Lleol.

**Diagnosis**
Rhaid rhoi gwybod i'r Cyngor am ddiagnosis pob plentyn/person ifanc o Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistiaeth er mwyn iddyn nhw gael mynediad at y gwasanaeth. Bydd diagnosis bwrdd iechyd neu ddiagnosis preifat yn dderbyniol.

**Dim ond i deuluoedd sydd â phlentyn neu berson ifanc y mae diagnosis o Awtistiaeth wedi'i gadarnhau y gall CASS ddarparu gwasanaethau.**

**Atgyfeiriadau**
Rhaid i weithiwr proffesiynol cynorthwyol o feysydd Addysg, Iechyd neu Wasanaethau Cymdeithasol **gyflwyno atgyfeiriad** er mwyn i bobl ifanc gael mynediad at gymorth yn yr ysgol neu gymorth yn y cartref. Rydyn ni'n gofyn i'r gweithiwr proffesiynol sy'n gwneud diagnosis wneud atgyfeiriad at CASS fel y gall y teulu gael mynediad at y cwrs hyfforddi ôl-ddiagnostig priodol yn y lle cyntaf. Lle nad yw hyn wedi digwydd, gall rhieni gysylltu â CASS i ofyn am fynediad at hyfforddiant ôl-ddiagnostig yn unig.

Mae atgyfeiriadau at CASS i'w gwneud ar **ffurflen atgyfeirio CASS** ac maen nhw'n gallu cael eu cyflwyno drwy e-bost i cass@sch.caerphilly.gov.uk

Fel arall, mae atgyfeiriadau yn gallu cael eu postio at CASS yn Ysgol a Chanolfan Adnoddau Cae'r Drindod, Ystrad Mynach, Caerffili CF82 7XW

Hefyd, dylai fod ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys nhw mewn atgyfeiriad at CASS lle bynnag y bo modd.

**Pan fydd atgyfeiriad yn cael ei wneud at CASS ar gyfer cymorth yn yr ysgol, a fyddech cystal â sicrhau ei fod yn rhan o ymateb graddedig, a bod tystiolaeth o'r ymateb hwn ar y ffurflen atgyfeirio. Lle nad yw ysgolion wedi dangos tystiolaeth o ymateb graddedig, bydd atgyfeiriadau'n cael eu dychwelyd i gael rhagor o wybodaeth cyn y gall cymorth yn yr ysgol ddechrau.**

**Os yw'r ysgol wedi gofyn am ymgynghori o'r blaen, dylai'r dyddiad ymgynghori hefyd gael ei gyfeirio ato yn yr atgyfeiriad.**

Byddwch yn fanwl am y math o gymorth sydd ei angen (gallwch chi ofyn am fwy nag un) ac yn glir ynghylch y canlyniadau dymunol.

Bydd CASS yn cadarnhau bod yr atgyfeiriad wedi dod i law o fewn mis i wneud yr atgyfeiriad (ac eithrio gwyliau ysgol). Bydd rhieni hefyd yn cael gwybod ac mae gofyn iddyn nhw lofnodi ffurflen caniatâd i ganiatáu cyfranogiad CASS ac i rannu gwybodaeth ag asiantaethau priodol.

Bydd rhieni neu ofalwyr yn cael gwybod am gynnydd a thargedau cyfredol drwy waith papur cychwynnol/ffurflenni ymadael, sgyrsiau dros y ffôn neu drwy e-bost a/neu ymweliadau cartref (gan gynnwys ymweliadau rhithwir). Mae gan rieni hefyd yr opsiwn i gysylltu â'r gwasanaeth ar unrhyw adeg am gyngor cyffredinol.

Hefyd, dylai fod ymgynghori â phlant a phobl ifanc a'u cynnwys nhw mewn atgyfeiriad at CASS lle bynnag y bo modd.

**Meini prawf rhyddhau**

- Mae'r plentyn neu berson ifanc wedi cyflawni'r targedau cychwynnol wedi'u gosod.
- Mae'r ymyrraeth neu gyngor wedi'i gynllunio wedi'i ddarparu.
- Mae angen atgyfeirio'r plentyn neu berson ifanc at wasanaeth arall.
- Mae’r ysgol neu'r rhieni yn teimlo nad oes angen cymorth pellach ac maen nhw'n gofyn am gael eu rhyddhau o wasanaeth CASS.
- Mae'r plentyn neu berson ifanc, y teulu neu'r ysgol yn gwrthod ymgysylltu â'r gwasanaeth.
- Nid yw'r plentyn neu berson ifanc bellach yn byw ym Mwrdeistref Sirol Caerffili.
- Nid yw'r plentyn neu berson ifanc yn bodloni meini prawf CASS ar gyfer ymyrraeth.
- Mae'r plentyn neu berson ifanc yn troi'n 18 oed.

Pan fydd y person ifanc yn cael ei ryddhau o’r gwasanaeth, bydd copi o’r Ffurflen Ymadael yn cael ei hanfon at y canlynol:

- Atgyfeiriwr
- Rhieni/gofalwyr a/neu ysgol
- Unrhyw weithiwr proffesiynol perthnasol arall

**Trefniadau gwaith**

1) Bydd CASS yn prosesu’r atgyfeiriad ac yn rhoi’r plentyn neu berson ifanc yn y categori cymorth priodol (yn seiliedig ar y cymorth wedi'i gofyn amdano ar y ffurflen atgyfeirio). Pan fo’r cais am gymorth yn y cartref uniongyrchol, bydd y teulu’n cael eu gwahodd i fynychu hyfforddiant lle nad yw’r teulu wedi bod yn hysbys i CASS o’r blaen neu wedi methu ag ymateb i wahoddiadau blaenorol.

2) Ar ôl i'r ffurflen atgyfeirio wedi'i llenwi ddod i law, bydd y tîm yn ymateb ac yn cadarnhau ei fod yn atgyfeiriad priodol gyda'r gweithiwr proffesiynol sy'n atgyfeirio.

Unwaith y bydd capasiti ar gael, bydd aelod o dîm CASS yn trefnu asesiad cychwynnol gyda'r rhiant/gofalwr a/neu leoliad addysg.

- Bydd CASS yn gosod targedau ar gyfer y plentyn neu berson ifanc.
- Bydd CASS yn amlinellu ymyrraeth gynlluniedig.
- Bydd CASS yn rhannu'r targedau a'r ymyrraeth gynlluniedig gyda'r ysgol, rhieni/gofalwyr a'r plentyn neu berson ifanc (lle bo'n briodol).
- Bydd ymyrraeth CASS yn digwydd dros gyfnod penodol o amser a bydd yn cael ei adolygu ar ddiwedd y cyfnod hwn. Mae ymyrraeth yn gallu cael ei hymestyn ac mae targedau yn gallu cael eu diwygio lle bo hynny'n briodol.
- Unwaith y bydd ymyrraeth CASS wedi'i chwblhau, bydd targedau'n cael eu hadolygu a bydd y plentyn neu berson ifanc yn gadael y gwasanaeth. Bydd cyfranogiad yn benodol ac yn gyfyngedig o ran amser.
- Bydd CASS yn cynorthwyo'r ysgol neu'r rhiant i wneud atgyfeiriad at wasanaeth arall pan fo'n briodol.

**Bydd angen ailgyfeirio'r plentyn neu berson ifanc i CASS i gael cyfnod pellach o gymorth a chyfranogiad. Os yw'n llai na 18 mis ers yr atgyfeiriad blaenorol, byddem ni'n argymell ymgynghoriad i ddechrau trafod ai atgyfeiriad arall i'r gwasanaeth yw'r ffordd orau o weithredu.**

## Adolygu canllawiau

Bydd y canllawiau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol. Efallai, hefyd, y bydd angen eu hadolygu a'u diwygio'n gynt i adlewyrchu diweddariadau lleol a chenedlaethol.